



# Cyngor Tref Aberteifi :-: Cardigan Town Council

Cofnodion yr is-bwyllgorau a gynhaliwyd yn Ystafell Gynhadledd 36 Pendre,  
nos Fawrth, 15 Hydref 2019 am 6.00yh.

Minutes of the sub-committees held at the 36 Pendre Conference Room  
on Tuesday, 15 October 2019 at 6.00pm.

**Presennol/Present—Y Cynghorwyr/Councillors** Shan Williams (*yn y gadair/in the chair*), John Adams-Lewis, Clive Davies, Richard Jones, Wyn Jones, Siân Maehrlein, Yvonne O'Neill, Trystan Phillips, a'r Clerc, Mr Wynford Jones.

**Ymddiheuriadau/Apologies—Y Cyng.** / Cllrs Graham Evans, Debra Griffiths, Catrin Miles, Steffan Morgan

## **Croeso'r Cadeirydd / Chair's welcome**

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Maer, y Cyng. Shan Williams.

The Mayor, Cllr Shan Williams, welcomed everyone to the meeting.

## **Cynllunio / Planning**

(Mae gan yr is-bwyllgorau bwerau dirprwyol i ddanfon sylwadau ar ran y cyngor at Gyngor Sir Ceredigion.  
Sub-committees have delegated powers to forward council observations to Ceredigion County Council.)

| Rhif y Cais /<br>Application No. | Cyfeiriad / Address        | Y Bwriad / Proposal   | Sylwadau / Observations   |
|----------------------------------|----------------------------|---|---|
| A190763                          | Karenza,<br>Napier Gardens | Retention of<br>conversion of<br>garage to annexe<br>including new<br>access. | Considering the circumstances of the tenant, the council has, in principle, no objection. It is requested that you consider the concerns regarding the volume of storm water emitted which exacerbates the flooding problem further down the lane – please advise the applicant to address this issue. It is also noted that the application is retrospective which for a structure of this size is not reassuring and might cause a precedent. |

## **Datgan diddordeb / Declaration of interest:**

Y Cyng. / Cllr John Adams-Lewis (*yr holl faterion cynllunio / all planning issues*)

## **Unrhyw Fater Arall / Any Other Business**

- (a) **Dymuna'r Cyng. Siân Maehrlein** bod y cyngor yn ystyried enwebu Mr Lee Owens i dderbyn cydnabyddiaeth cyngor y dref am ei waith yn cymennu'r strydoedd.

**Dymuna'r cler** bod y cyngor yn ystyried enwebu Mr John Jones, arweinydd Band y Dref, am ei wasanaeth i Sul y Cadoediad am 35 mlynedd.

**Awgrymwyd** bod y ddau enw uchod yn cael ei hystyried i dderbyn tariannau'r dref am eu gwasanaeth i'r ardal.

Cllr Siân Maehrlein wishes the council to consider nominating Mr Lee Owens for a town award for his work to keep the town clean and free from debris.

The clerk wishes the council to consider nominating Mr John Jones who has conducted the Town Band for 35 years at the Remembrance Day services.

It was recommended that the above two named persons receive town shields for their contribution.

- (b) **Ailosod y Ddraig Goch ar y mur tu allan i Neuadd y Dref: Diweddariad. Cytunodd y Cyng. John Adams-Lewis gysylltu â'r Cynghorwyr Clive Davies a Richard Jones i symud y mater ymlaen.**  
 Repositioning of the Welsh Dragon on the Guildhall wall: Update.  
 Cllr John Adams-Lewis agreed to liaise with Cllrs Clive Davies and Richard Jones to resolve the issue.
- (c) **Geiriad i'w ystyried i'w gynnwys ar y gwregys achub ar y cei. Awgrymwyd bod y Cyng. Richard Jones yn cysylltu gyda swyddog Sianel Glir Afon Teifi, Mr Jim Marsden, i drafod y geiriad.**  
 Wording to be considered for inclusion on the lifebuoy on the quay.  
 It was recommended that Cllr Richard Jones discusses the wording with Mr Jim Marsden, an officer with Afon Teifi Fairways Committee.
- (d) **Cyngor Sir Ceredigion: Posteri "Hysbysiad Cyhoeddus – Ward Rhyd-y-fuwch: 1 sedd wag". I'w arddangos cyn 15 Hydref. Mae'r clerc wedi arddangos y poster ar wefan y cyngor a hefyd yn yr hysbysfyrdau hyd y dyddiad cau, 4 Tachwedd 2019.**  
 Ceredigion County Council: Poster "Public Notice – Rhyd-y-fuwch Ward: 1 casual vacancy".  
 Posters to be displayed by 15 October.  
 The clerk has displayed the notices on the council website and the notice board where they will remain until the closing date, 4 November.
- (e) **Ffair Aberteifi: Gwahoddiad i'r Maer agor y Ffair am 1:00yp ar ddydd Sadwrn, 9 Tachwedd. Mae gwahoddiad wedi ei estyn hefyd i blant gydag anghenion arbennig ar nos Wener, 8 Tachwedd am 6:00yh.**  
 Cardigan Fair: An invitation has been extended to the Mayor to open the Fair on Saturday, 9 November at 1:00pm. An invitation is also extended to all special needs children in the area to attend the Fair on Friday, 8 November at 6:00pm.
- (f) **Cais gan aelod o'r cyhoedd am fin sbwriel/bin baw cŵn ar heol Cnwcydintir. Awgrymwyd bod cais am fin newydd yn cael ei wneud i'r cyngor sir.**  
 Request by a member of the public for a litter bin/dog foul bin on the Cnwcydintir road.  
 It was recommended to apply to the county council for a new bin.

### ***Adroddiad y Clerc / Clerk's Report***

- (a) **Mynychodd y clerc a'r Cyng. Clive Davies Gynhadledd Flynyddol Un Llais Cymru ym Mhonrhydfendigaid ar ddydd Sadwrn, 5 Hydref. Gwahoddwyd y Cyng. Davies i gyflwyno sesiwn am ddatblygiad y wi-fi yn Aberteifi ynghyd ag eitemau eraill am ddatblygiad cadarnhaol y dechnoleg newydd. Cafodd ymateb gwresog gan y gynulleidfa o glercod a chynghorwyr o bob cwr o Gymru am ei gyflwyniad ardderchog. Yn dilyn hyn, mae gwahoddiad wedi cyrraedd iddo fynychu cyfarfod Cyngor Tref y Drenewydd a Llanllwchaearn ddiwedd mis Hydref i'w haddysgu am y datblygiadau llwyddiannus yn Aberteifi.**  
 The clerk and Cllr Clive Davies attended the Annual Conference of One Voice Wales at Pontrhydfendigaid on Saturday, 5 October. Cllr Davies was invited to give a presentation on the development of the wi-fi in Cardigan and other technological issues. His excellent 20-minute presentation was warmly received by the assembly of clerks and councillors throughout Wales. As a follow-up, Cllr Davies has been invited to attend the council meeting of Newtown and Llanllwchaiarn Town Council at the end of October to enlighten them on the developments in Cardigan.
- (b) **Roedd y cyfarfod a gynhaliwyd nos Lun, 7 Hydref i drefnu Sul y Cadoediad yn llwyddiannus gyda chynrychiolaeth dda o'r gymuned, yn cynnwys y Lleng Brydeinig, y Parchg John Bennett, ac eraill yn bresennol. Bydd angen trefnu'r gerddoriaeth gan na fydd Band y Dref yn bresennol. Cafwyd mewnbwn cadarnhaol gan Rhian Medi, arweinydd Côr Clwb Rygbi Aberteifi, am ei chyfraniad tuag at yr emynau a'r anthemau ar y bysellwrdd.**

The meeting to organise the Remembrance Day service was held on Monday, 7 October. The usual representation from the Cardigan Branch the Royal British Legion and the clergy was present. Due to the absence of the Town Band, the musical renderings are still to be finalised. Rhian Medi, the conductor of the Cardigan RFC choir will accompany the hymns and anthems on her keyboard.

- (c) **Aeth y clerc a'r Cyng. John Adams-Lewis, ar wahoddiad Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd Dyfed-Powys Dafydd Llywelyn, i'r Pencadlys yn Llangunnon ar nos Fawrth, 8 Hydref i'r cyflwyniad am system newydd y camerâu teledu cylch cyfyng. Rhyfeddwyd ar y system monitro a gwelwyd y camerâu yn gweithio ar hyd strydoedd Aberteifi gyda chlirdeb arbennig. Cafwyd cyflwyniadau diddorol gan y Comisiynydd, Ditectif Brif Uwcharolygydd Steve Cockwell, Dirprwy Brif Gwnstabl Claire Parmenter a'r Prif Arolygydd Mark McSweeney.**

The clerk and Cllr John Adams-Lewis, on the invitation of the Police and Crime Commissioner for Dyfed-Powys Dafydd Llywelyn visited the police headquarters at Llangunnon on Tuesday, 8 November to view the new controlling system of the modern CCTV cameras. The actual monitoring of the system with its high-resolution cameras was inspiring as the streets of Cardigan were displayed with excellent clarity. Short and interesting presentations were given by the Commissioner, Detective Chief Superintendent Steve Cockwell, Deputy Chief Constable Claire Parmenter and Chief Inspector Mark McSweeney.

- (d) **Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol elusen Cae Chwarae Brenin Siôr 5ed nos Fercher, 9 Hydref yn yr Ystafell Gynhadledd. Cafwyd trafodaeth fywiog am weithrediadau'r Pwyllgor Ymgynghorol gan gynrychiolwyr y clybiau a'r preswylwyr. Cytunwyd bod Mr Keith Phillips yn cymryd y gadeiryddiaeth a Mrs Margaret Rees yr ysgrifenyddiaeth. Bydd y Cyng. Steffan Morgan yn parhau fel cynrychiolydd y cyngor.**

The Annual General Meeting of the King George 5<sup>th</sup> Playing Field charity was held on Wednesday, 9 October at the Conference Room. A lively discussion ensued regarding the governance of the Advisory Committee. Mr Keith Phillips was elected to the chair with Mrs Margaret Rees as secretary. Cllr Steffan Morgan will continue as the council representative on the committee.

- (e) **Cynhaliwyd cyfarfod ar gyffuriau yn Neuadd y Dref ar nos Wener, 11 Hydref. Roedd y neuadd yn llawn gyda siaradwyr niferus yn sôn am eu profiadau ym myd problemau cyffuriau'r wlad.**

The "Wales: Take drugs seriously" meeting was held in the Guildhall on Friday, 11 October. The meeting was well attended with the following speakers: Rachel Lewis (who spoke from a personal perspective), Neil Woods (law enforcement action partnership, ex-undercover police officer working with drug gangs), Judith Yates (GP board member of International Doctors for Healthier Drug Policies), Rob Barker Williams (training coordinator and expert on overdose prevention centres), Jane Salter (deputy CEO of Transform Drug Policy Foundation and campaign manager of Anyone's Child), Ben Lake (MP for Ceredigion). A session of questions and answers followed.

- (f) **Cynhaliwyd Gwasanaeth Coffa ac Ymgysegru i anrhydeddu Michael J. Dunphy, Lee T. Davies a David M. E. Greenhalgh ddydd Sadwrn, 12 Hydref ger Cofeb Ryfel Aberteifi am 2:00yp. Cafwyd gwasanaeth urddasol gyda chynrychiolaeth dda o'r lluoedd arfog, teuluoedd y milwyr, gwesteion anrhydeddus a dinasyddion. Dadorchuddiwyd y gofeb gan Arglwydd Raglaw Ei Mawrhydi yn Nyfed, Miss Sara Edwards.**

The Commemoration and Dedication Service to honour Michael J. Dunphy, Lee T. Davies and David M. E. Greenhalgh was held on Saturday, 12 October at Cardigan War Memorial at 2:00pm. The dignified service was very well attended with representation from the armed forces, families of the fallen soldiers, honoured guests and the residents of Cardigan and district. The unveiling of the plaque was performed by Her Majesty's Lord Lieutenant of Dyfed, Miss Sara Edwards.

## ***Gwahoddiadau i'r Maer / Invitations to the Mayor***

**27 Hydref—Cinio Blynyddol Sioe Dydd Sadwrn Barlys yn y Clwb Golff.**

**Yn absenoldeb y Maer, bydd y Dirprwy Faer yn mynychu'r ginio.**

27 October—The Annual Dinner of Cardigan Barley Saturday Committee at the Golf Club.

In the absence of the Mayor, the Deputy Mayor will attend the dinner.

**9 Tachwedd—Agoriad Swyddogol Ffair Aberteifi am 1:00yp.**

9 November—Official Opening of Cardigan Fair at 1:00pm.

**16 Tachwedd—Cinio Blynyddol Sioe Amaethyddol Aberteifi, Gwesty'r Cliff, 7:30yh.**

16 November—Cardigan Agricultural Show Annual Dinner, Cliff Hotel, 7:30pm.

---

## ***Er gwybodaeth / For information***

**22 Hydref—Noson Cyflwyno'r Rhoddion, Ystafell Gynhadledd, 6:00yh.**

22 October—Grant Presentation Evening, Conference Room, 6:00pm (*photocall*).

**10 Tachwedd—Sul y Cadoediad, 10:45yb.**

10 November—Remembrance Sunday, 10:45am.

**6 Rhagfyr—Gorymdaith y Llusernau, 7:00yh.**

6 December—The Giant Lantern Procession, 7:00pm.

**7 Ionawr—Cyfarfod Misol y Cyngor.**

7 January—Monthly Council Meeting.

**14 Ionawr—Cyfarfod y Gyllideb, 6:00yh.**

14 January—Council Budget Meeting, 6:00pm.